**Mae Hawlfraint ar y Deunydd hwn**

Mae Asiantaeth Ieuenctid Cymru wedi gofyn am a chael caniatâd i ddarparu'r deunydd hwn ar CD at ddibenion addysgol yn unig. Ni chaniateir unrhyw ddefnydd anawdurdodedig o'r deunydd hwn, ac ni ellir ei atgynhyrchu ychwaith.

**Atgynhyrchwyd gyda chaniatâd yr Asiantaeth Ieuenctid Genedlaethol.**

**Er mwyn cael rhagor o fanylion ar yr AIG ewch i'w gwefan: www.nya.org.uk**

**Dogfennau o Bwysigrwydd Hanesyddol**

**Ieuenctid Mewn Cymdeithas**

# Y COLEG PENTREF

***Memorandwm ar Ddarparu Cyfleusterau Addysgol a Chymdeithasol yn y Wlad, gan Gyfeirio at Swydd Gaergrawnt yn Arbennig***

gan

H. MORRIS

Ysgrifennydd Addysg, Swydd Gaergrawnt

*Cyhoeddwyd gan Wasg Prifysgol Caergrawnt, 1925*

'Mae'r broblem yng nghefn gwlad yn un y mae llywodraethau olynol wedi'i hanwybyddu mewn anobaith. Mae'r adeiladau Ysgol elfennol yn annigonol ac yn afiach yn y mwyafrif brawychus o achosion; mae'r diffyg cyfleusterau ar gyfer addysg barhaus ac uwchradd yn gywilydd i gymuned tra threfnus. Gellir cyflawni popeth (sy'n angenrheidiol). Yr hyn y dymunwn ei bwysleisio yw'r ffaith nad ydynt yn cael eu cyflawni mewn ardaloedd gwledig, ac nid yw'n ymddangos eu bod yn debygol o gael eu cyflawni ychwaith.'

*The Times Educational Supplement*

13 Rhagfyr, 1924

### ADDYSG A LLES CEFN GWLAD

**i.** Mae datblygiad eang system addysg y Wladwriaeth yn Lloegr yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ganrif hon wedi bod yn ddatblygiad trefol yn gyfan gwbl bron. Mae'r trefi'n gyfoethog, a chan eu bod yn ganolfannau i boblogaethau mawr bu'n anodd, yn weinyddol, darparu ysgolion a sefydliadau addysg uwch oherwydd bod y disgyblion yn byw mewn cannoedd a miloedd wrth eu drysau. Ar y cyfan, mae ysgolion elfennol y trefi wedi eu hadeiladu'n well a chânt eu staffio a'u cyfarparu'n fwy hael nag ysgolion y wlad; lleolir yr ysgolion uwchradd, gyda nifer fach o eithriadau, yn y trefi; felly maen nhw hefyd yn ganolbwynt i addysg dechnegol. Mudiad trefol yw Cymdeithas Addysgol y Gweithwyr, sef y mudiad poblogaidd mwyaf grymus a chyfundrefnol ar gyfer addysg oedolion, gydag ychydig iawn o ddylanwad yn y pentrefi; does dim mudiad cyfatebol ar gyfer addysg uwch blaengar yn y wlad.

Mae dau reswm amlwg am ddatblygiad addysg llai grymus yng nghefn gwlad – ei sefyllfa economaidd israddol, o gymharu â chanolfannau diwydiant trefol, a maint a chymeriad gwasgarog y pentrefi nad ydynt yn addas i'w trefnu ar gyfer dibenion addysg a bywyd hamdden.

**ii.** Yn addysgol mae cefn gwlad yn israddol i'r trefi, a chaiff ei hysgolion eu dominyddu gan, ac maent yn wasaidd i, system drefol addysg uwchradd ac uwch. Oherwydd gweithrediad y system ysgoloriaethau lle ceir lleoedd am ddim, caiff y plant mwyaf dawnus eu cymryd o ysgolion y wlad i mewn i ysgolion uwchradd y dref,

lle maent yn derbyn addysg lenyddol ac academaidd yn bennaf, o dan amodau trefol, a chânt eu hysgaru o fywyd a chynefinoedd cefn gwlad. Naill ai fe'u collir o'r pentrefi ac maent yn mynd i weithio yn y trefi, neu maent yn dychwelyd i'w cartrefi yn anaddas a heb hyfforddiant ar gyfer bywyd fel gwŷr a gwragedd y wlad. Os, fel yr ymddengys sy'n bosib, bydd y nifer o ysgolion uwchradd trefol yn cynyddu, a chaiff y gyfran o leoedd sydd am ddim ei chodi'n gyffredinol o 25 i 40 y cant, bydd cyflwr cefn gwlad yn dwysau. Eisoes mae llawer o Awdurdodau Addysg, sy'n wynebu'r galw am fwy o addysg uwchradd, yn ystyried cynlluniau ar gyfer ysgolion uwchradd a chanol ychwanegol yn y dref, a bydd plant y wlad yn cael eu cludo yna, ar raddfa fawr, ar y trên neu mewn fflydoedd o fysiau.

Gyda'r sylweddoliad bod lles cefn gwlad yn dibynnu ar 'well ffermio a gwell ffordd o fyw', mae llawer yn cael ei wneud gan y Wladwriaeth ac ymdrechion gwirfoddol erbyn hyn. Ond nid yw addysg amaethyddol i oedolion, boed yn deithiol neu wedi'i ganoli mewn colegau preswyl a sefydliadau amaethu, mudiad Sefydliad y Merched, Llyfrgelloedd Gwledig, Neuaddau Pentref, Cynghorau Cymuned Gwledig, er mor rhagorol y maent, yn ddigon radicalaidd a chynhwysfawr i ail-lunio cefn gwlad.

**iii.** Ni fydd yr angen yng nghefn gwlad yn cael ei ddiwallu, trwy ailffurfio'r system ysgolion elfennol gwledig, nes i'r pentrefi gael eu darparu ag addysg gynradd ac uwchradd, a fydd yn paratoi bechgyn a merched ar gyfer bywyd (yn ei ystyr ehangaf) fel gwŷr a gwragedd y wlad; [(1)] nes bod y wlad yn derbyn sefydliad lle gellir cymhwyso darpariaethau eang Deddf Addysg gyfunol 1921, yn enwedig gyda golwg ar addysg uwch a thechnegol, a'u mynegi o safbwynt bywyd a diwydiant gwledig; nes bod poblogaeth y wlad wedi gwarantu bywyd cymdeithasol a hamddenol, yn seiliedig ar seiliau cadarn. Caiff y farn hon ei chadarnhau gan y farn a gymerir yn y *Final Report of the Agricultural Tribunal of Investigation* a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Yn ei adolygiad o'r adroddiad yn yr *Economic Journal* (Medi, 1924), dywed Mr J. A. Venn, Darlithydd Gilbey yn Hanes ac Economeg Amaethyddiaeth ym Mhrifysgol Caergrawnt:

> Bydd y pwysigrwydd y maen nhw (Syr William Ashley a'r Athro W.G.S. Adams) yn ei roi i addysg, gan ddefnyddio'r gair yn ei ystyr ehangaf, yn cael ei weld pan ddywedir, allan o'r deugain a phedwar o argymhellion sy'n gynwysedig yn y rhan hon o'r Adroddiad, bod nid llai na phump ar hugain yn pryderu am y modd mae'r ffermwr yn cael ei drefnu ac am wella ei ddealltwriaeth, nid yn unig o'r diwydiant ei hun ond o'i amgylchoedd.

Ond, os ydym yn dymuno meithrin gwareiddiad gwledig gyda grym parhaol, y peth hanfodol cyntaf yw y dylai fod gan y wlad system leoledig a chynhenid o addysg yn ei rhinwedd ei hun, gan gychwyn gyda'r plentyn yn yr ysgol gynradd. Bydd addysg amaethyddol grwydrol i oedolion, llyfrgelloedd gwledig a neuaddau pentref, yn brwydro am byth mewn brwydr sydd wedi hanner ei cholli eisoes, os gadewir y system bentref o addysg elfennol fel y mae, a'n bod yn anghofio'r plant a'r bechgyn a merched hŷn, a gadael i'r mwyaf dawnus yn eu plith gael eu dwyn gan ysgolion uwchradd y trefi.

## PROBLEM YR YSGOL BENTREF

**iv.** Bydd y cam cyntaf tuag at ddarparu'r wlad ag addysg fwy effeithlon yn gorwedd yn ad-drefniant yr ysgolion pentref i mewn i system o Ysgolion Uwch neu Ganolog yn y pentrefi mwyaf, a gefnogir gan ysgolion iau ategol i blant o dan un ar ddeg yn y pentrefi o llai o amgylch. Mae'r rhesymau o blaid polisi o'r fath yn adnabyddus, a'r cyfan sydd ei angen yw eu hailadrodd yn gryno.

Yn Swydd Gaergrawnt, er enghraifft, ceir 33 o ysgolion gyda chyfartaledd o lai na 30 yn mynychu, 14 o ysgolion gyda chyfartaledd o rhwng 30 a 40 yn mynychu, 14 o ysgolion gyda chyfartaledd o rhwng 50 a 60 yn mynychu, a 41 o ysgolion gyda chyfartaledd o rhwng 60 a 100 yn mynychu. 21 o ysgolion yn unig sydd â chyfartaledd o rhwng 100 a 250 yn mynychu.

Yn yr ysgolion llai yma caiff pob plentyn o 3 i 14 oed eu cartrefu mewn un ystafell, neu os oes ystafell ddosbarth ar wahân i'r babanod, caiff pob plentyn dros Safon 1 eu gartrefu yn y brif ystafell. Weithiau rhennir y brif ystafell gan lenni, ac yn llai aml gan sgrîn. O angenrheidrwydd mae plant o amrywiol oedrannau ac amrywiol safonau cyrhaeddiad yn cael eu grwpio mewn un dosbarth.

Efallai mai'r plant hŷn sy'n dioddef fwyaf – maent yn disgwyl i'r amser ddod i ben wedi 11 neu 12 oed; nid oes digon o staff i ddiwallu eu hanghenion arbennig, a phetai yna ddigon o staff, mae yna ddiffyg offer a llety ar gyfer hyfforddiant mwy datblygedig.

Yn gryno, nid yw ysgol bentref gyda chyfartaledd o 100 neu lai yn mynychu yn nodweddiadol o sefydliad ar unrhyw egwyddor gadarn, ac nid yw'r niferoedd bychain yn caniatáu i staff, llety ac offer gael eu darparu, a fyddai'n gwneud cwricwlwm ehangach yn bosib. Mae'r ysgol fach yn annigonol ac yn gostus.

**v.** Enghraifft o'r hyn sy'n digwydd pan fo ysgolion un ardal yn cael eu grwpio'n unol â chynllun yw ardal Burwell o Swydd Gaergrawnt. Yn Burwell roedd yna bedair ysgol, tair ysgol wirfoddol ac un Ysgol Gyngor, pob un yn gweithio fel uned ar wahân. Caewyd un hen Ysgol Eglwysig; a threfnwyd y ddwy ysgol eglwysig arall fel ysgolion iau i'r rhai dros 10 oed. Helaethwyd yr Ysgol Uwch trwy ychwanegu ystafell ar gyfer gwaith llaw a phynciau domestig, a llogwyd tir ar gyfer gardd yr ysgol. Yn ddiweddarach, trosglwyddwyd y plant hŷn o bentrefi cyfagos Reach a Swaffham Prior i Ysgol Uwch Burwell.

Yn Ysgol Uwch Burwell mae yna 150 o blant rhwng 10-15 oed. Cânt eu trefnu i ddosbarthiadau yn ôl eu hoedran a'u cyraeddiadau, gyda phob un yng ngofal athro cymwys. Mae gwaith llaw, pynciau domestig a garddio'n rhan anhepgor o'r hyfforddiant. Rhoddir pwyslais mawr ar ddysgu Saesneg (mae'r ysgol yn cynhyrchu drama un waith y flwyddyn), hanes lleol a hyfforddiant corfforol. Mae yna fywyd corfforaethol cadarn, a cheir clybiau athletau a hobïau ffyniannus. Mae gan yr ysgol ei lliwiau, gyda chap ysgol i'r bechgyn a smoc a chap i'r merched. Mae'r plant sy'n teithio o bell yn cael cinio gyda'i gilydd o dan ofal athro.

**vi.** Nod cynllun Swydd Gaergrawnt yn y pen draw yw sefydlu rhyw 30-40 o ysgolion uwch neu ganolog o dan ofal graddedigion neu brifathrawon â chymhwyster arbennig. Yna, gobeithir canolbwyntio ar holl blant hŷn y sir yn y canolfannau yma, a rhoi hyfforddiant uwch iddynt gyda gogwydd gwledig cadarn mewn ysgolion a gyfarperir ac a staffir yn ddigonol. Bydd tri chanlyniad pwysig yn dilyn. Bydd y nifer o blant hŷn sy'n mynychu'r Ysgolion Uwch yn ei gwneud hi'n bosib trefnu system ddosbarth ym mhob ysgol, a fydd yn dwyn oedran a chyraeddiadau i ystyriaeth. Bydd yn bosib ffocysu'r cyfleusterau ar waith llaw, pynciau domestig, gwyddorau elfennol cyffredinol, a garddio mewn nifer cyfyngedig o ganolfannau. Ar yr un pryd, bydd y staff mewn ysgolion ategol, a fydd yn cael eu rhyddhau o'u cyfrifoldeb am y plant hŷn, yn medru ymroi yn effeithiol i anghenion y babanod a'r plant iau.

Mae cynllun grwpio Swydd Gaergrawnt wedi cael dau ganlyniad diddorol:

(a) Mae'r Ysgolion Uwch wedi'i gwneud hi'n bosib denu math newydd o athro i'r wlad. Ar wahân i athrawon â chymhwyster arbennig, mae yna wyth o brifathrawon ac athrawon cynorthwyol yn Swydd Gaergrawnt erbyn hyn sy'n raddedigion o Rydychen, Caergrawnt, Llundain, Glasgow a Birmingham.

(b) Oherwydd yr anawsterau sy'n amlwg yn y system ddeuol o Ysgolion gwirfoddol a Chyngor, sefydlodd y Pwyllgor Addysg Bwyllgor Ymgynghorol i gynrychioli'r holl enwadau a'r proffesiwn dysgu, a chaiff ei lywyddu gan Is Ganghellor y Brifysgol (Dr E.C. Pearce, Meistr Coleg Corpus Christi) gyda'r nod o gyflawni maes llafur cytunedig ar gyfer addysgu crefydd. Bu gwaith y Pwyllgor yn llwyddiannus, ac arweiniodd at yr hyn a elwir yn 'Goncordat Swydd Gaergrawnt', sy'n cynnwys y *Cambridgeshire Syllabus of Religious Teaching for Schools.* Mae dau

Feibl, sy'n seiliedig ar y maes llafur *("The Little Children's Bible' a 'The Children's Bible')*, a olygwyd gan yr Athro Alexander Nairne, Syr Arthur Quiller-Couch a'r Dr T.R. Glover, wedi cael eu cyhoeddi ac fe'u defnyddir mewn Ysgolion yn Swydd Gaergrawnt. (Mae gwerthiant Beiblau'r Plant ym Mhrydain Fawr wedi cyrraedd 60,000 a chyhoeddwyd argraffiad Americanaidd gan y Mri Macmillan).

**vii.** Bydd grwpio ysgolion y wlad, ar y llinellau a ddisgrifiwyd, yn cael canlyniadau o bwysigrwydd mawr yn Lloegr wledig. Gydag amser bydd clystyrau mawr o ysgolion gwledig yn cael eu ffurfio'n system drefnus o ddwy fath o ysgol, i'r rhai hynny o dan un ar ddeg neu tua hynny a'r rhai dros yr oedran hwnnw. Gyda chylch gorchwyl diffiniedig a dealladwy yn cael ei roi i bob ysgol, bydd enillion dirfawr yn deillio o ran cyfundrefn, yn narpariaeth ddarbodus adeiladau ac offer, wrth ddatblygu a chyfoethogi'r cwricwlwm, ac wrth hyfforddi'r athrawon. Bydd arian yn cael ei arbed a'i wario'n fwy effeithiol. Bydd y system yn galluogi, pan fod amgylchiadau'n mynnu, datblygiad hawdd a naturiol; ysgolion uwchradd gwledig wedi eu lleoli'n ganolog. O'r diwedd, bydd yn bosib ym mhob cwr o gefn gwlad Lloegr cael addysg wledig o fath uwchradd, i hyfforddi bechgyn a merched ar gyfer bywyd fel gwŷr a gwragedd y wlad.

## Y COLEG PENTREF

**viii.** Ond os yw Lloegr wledig yn mynd i gael yr addysg sydd ei angen a'r bywyd cymdeithasol a hamdden mae'n ei haeddu, mae angen gwneud mwy nag ad-drefnu'r system ysgolion elfennol yn unig; ac mae'r hyn sy'n ofynnol yn bosib.

Mae'n rhaid grwpio a chyd-drefnu'r holl asiantaethau addysgol a chymdeithasol sy'n bodoli mewn unigedd yng nghefn gwlad ar hyn o bryd: uniad a fydd, wrth gynnal hunaniaeth a swyddogaeth pob un, yn eu hymgynnull yn un a gwneud eu mynegiant yn bosib am y tro cyntaf mewn sefydliad newydd, unigol ond amlochrog, ar gyfer cefn gwlad.

**ix.** Gellir dangos yn fanwl yr hyn y mae'n ei olygu.

Y Cyngor Sir yw'r Awdurdod Statudol dros:

(i) Addysg:

Elfennol.

Uwch:

(a) Addysg Uwchradd ac Ysgolion Parhad Dyddiol

(b) Addysg Bellach

(c) Addysg Amaethyddol

(ii) Deddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus, 1919.

(iii) Cyflogi Pobl Ifanc ac Yswiriant Diweithdra

(iv) Iechyd y Cyhoedd

(v) Amaethyddiaeth (yn cynnwys y diwydiannau gwledig llai).

Felly, y Cyngor Sir yw'r Awdurdod Statudol dros y ddeddfwriaeth gyfan sy'n darparu ar gyfer lles cymdeithasol ac economaidd cefn gwlad, trwy gyfrwng cyfleusterau addysgol, hamdden a chymunedol, (2) ac eithrio parthed y ddau ddiwethaf, lle rhennir ei awdurdod gan y Cynghorau Dosbarth Gwledig a'r Cynghorau Plwyf. Ond caiff swyddogaethau'r Awdurdod Statudol mawr eu cyflawni ar wahân yn y pentref, ac ni chaiff gwasanaethau'r Cyngor Sir eu cyd-drefnu gyda rhai'r awdurdod lleol bach. Y prif reswm am hyn yw nad yw'r ysgol elfennol yn y pentref yn ddigonol ar gyfer y gysyniadaeth eang o addysg, sy'n cwmpasu pob oed a gweithgareddau, ac yn cynnwys hyfforddiant cymdeithasol a chorfforol, fel y mynegir yn Neddf Addysg gyfunol 1921. Yn y mwyafrif o bentrefi, os nad ym mhob un, ochr yn ochr â darn o addysg elfennol bydd grŵp o ddosbarthiadau nos yn cael eu cynnal yn yr ysgol elfennol, os nad oes adeilad arall ar gael. Gall fod yna Ddosbarth

Sefydliad y Merched a Dosbarth Y Lleng Brydeinig; Dosbarth Corawl mewn tŷ preifat; ac un neu ddau o Ddosbarthiadau Addysg Amaethyddol a gynhelir naill ai yn yr ysgol, neu yn neuadd y plwyf, neu mewn ysgubor neu adeiladau fferm eraill. [3] Nid oes gan gangen leol y Llyfrgell Sirol gartref priodol - caiff ei letya mewn cornel yn yr ysgol neu'r neuadd neu mewn annedd preifat. [4] Caiff y safle hamdden sy'n eiddo i'r Cyngor Plwyf ei leoli mewn cornel pellennig o'r pentref. Os oes yna Ganolfan Lles Plant, caiff honno ei lleoli mewn cornel arall.

Nid yn unig y caiff y gweithgareddau presennol eu cynnal mewn unigedd, oddi wrth ei gilydd, nid oes llety addas ar gyfer y mwyafrif ohonynt. Unwaith eto, nid yw adeilad presennol yr ysgol elfennol yn galluogi datblygu cyfleusterau addysgol llawnach ar gyfer pobl ifanc ac oedolion. Yn olaf, os nad oes yna neuadd bentref addas, does dim lle gan Gymdeithasau Gwirfoddol y wlad i ymgynnull, ar wahân i yn ysgol y plant; mae'n rhaid cynnal nifer fawr o gyfarfodydd cymdeithasol yno; ac yno hyd yn oed, yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid dod o hyd i lety ar gyfer gwaith llywodraeth leol y pentref, heb rent.

**x.** Dylid dod â'r holl weithgareddau a chyfleusterau sy'n bodoli yng nghefn gwlad, a'r rhai hynny y gellid eu darparu trwy ddeddf, at ei gilydd mewn, ac o amgylch, un sefydliad.

Yn Swydd Gaergrawnt y nod fyddai sefydlu, mewn tua deg o ganolfannau a ddewiswyd yn ofalus lle mae Ysgolion Uwch wedi eu trefnu eisoes, system o golegau pentref a fyddai'n darparu ar gyfer cyd-drefnu a datblygu pob math o addysg – cynradd, uwchradd, pellach ac addysg i oedolion, yn cynnwys addysg amaethyddol – ynghyd â chyfleusterau cymdeithasol a hamdden, a dodrefnu'r ganolfan gymunedol ar gyfer y gymdogaeth ar yr un pryd.

Yn y canolfannau yma byddai'r ysgol elfennol ynysig fel y cyfryw, gyda'r holl gysyniadaeth gul sy'n gysylltiedig â hi, yn cael ei diddymu; a byddai'n cael ei hamsugno i mewn i sefydliad mwy.

Gadewch i ni, er dibenion eglurebu, ddychmygu bod y coleg pentref yn cynnwys dwy adain neu gyrtiau triongl, un yn cynnwys rhan yr ysgol, a'r llall yn cynnwys llety ar gyfer gweithgareddau i oedolion, gyda'r neuadd bentref rhyngddynt, felly:

Byddai'r coleg pentref yn darparu ar gyfer y canlynol:

(1) Ystafell i'r ysgol feithrin, a fyddai hefyd yn cael ei defnyddio fel Canolfan Lles Plant.

(2) Ysgol gynradd i blant rhwng 5-10 oed, o ganol y pentref yn unig.

(3) Ysgol sy'n rhoi addysg wledig o fath uwchradd i blant o 10-15 neu 16 oed yng nghanol y pentref a phentrefi ategol yr ardal a ddewisir. Byddai'r fath bentrefi ategol o fewn pellter a fyddai'n rhesymol i gerdded, beicio neu ddal tren neu fws (2-$3^{1/2}$ milltir ar gyfartaledd yn Swydd Gaergrawnt); a byddai'r pentrefi ategol yn cael cadw ysgol iau i fabanod a phlant iau hyd at 10 oed. Felly byddai'r ysgol, wrth ffurfio rhan o'r coleg pentref, yn cynnwys gweithdy ar gyfer gwaith llaw, ystafell ar gyfer gwyddorau domestig (coginio, golchi dillad a chrefft cadw tŷ) ac ystafell ar gyfer gwyddoniaeth elfennol cyffredinol, yn ychwanegol at ystafelloedd dosbarth. Hefyd, byddai'r tair ystafell yma'n cael eu defnyddio gyda'r nos i addysgu oedolion mewn crefftau, pynciau domestig a gwyddoniaeth amaethyddol.

(4) Ystafell staff i athrawon, a'r swyddfeydd arferol i athrawon a phlant.

(5) Y neuadd bentref, a fuasai'n cael ei ddefnyddio

(a) Yn ystod y dydd, fel neuadd ar gyfer gwasanaethau ysgol, ar gyfer pryd amser cinio, achlysuron yr ysgol, hyfforddiant corfforol a dramâu a chyngherddau'r ysgol;

(b) Gyda'r hwyr, i ddarlledu rhaglenni ar amserau penodol, cyngherddau, perfformiadau gan gymdeithas ddramatig y pentref; arddangosiadau gan sinema deithiol Cyngor Cymuned Wledig Swydd Gaergrawnt, darlithoedd, dawnsfeydd, gyrfaoedd chwist a chyfarfodydd cyhoeddus.

(6) Ystafell a rennir yn ddwy - adran y llyfrgell yn cynnwys cnewyllyn parhaol o lyfrau a'r cyflenwad misol o lyfrau o Lyfrgell Sirol Swydd Gaergrawnt, lle gallai'r pentrefwyr ddarllen ac astudio mewn tawelwch a chysur rhesymol; ac adran ar gyfer ystafell ddarllen yn cynnwys papurau newydd a chyfnodolion.

Felly, byddai'r Llyfrgell yn ymwneud yn agos â phob cam a math o waith addysgol a gyflawnir yn y coleg, a byddai'n cael ei defnyddio gan bob myfyriwr o'r ieuengaf i'r hynaf. Byddai cysyniadaeth newydd o'r Llyfrgell Gyhoeddus, fel yr adran sy'n darparu'r adnodd addysgol a elwir yn 'llyfrau' yn cael ei gwireddu. Byddai bechgyn a merched ysgol, eu brodyr a'u chwiorydd hŷn a'u rhieni yn pasio yn ôl ac ymlaen, yn rhydd, rhwng yr ystafell ddosbarth, yr ystafell ddarlithio neu'r safle arddangos a'r Llyfrgell.

(7) Ystafell wedi'i gosod ar wahân ar gyfer addysg amaethyddol, yn cynnwys mapiau, siartiau a sbesimenau, i'w defnyddio ar y cyd gyda'r labordy gwyddoniaeth (paragraff (3)).

Byddai ystafell o'r fath gyda'r labordy'n darparu ar gyfer cydran ddamcaniaethol y math hwnnw o addysg amaethyddol - Cyrsiau Llesol a Hyfforddiant Lleol - nad ydynt, yn unol â chynllun y Weinyddiaeth Amaeth, yn dod o dan adain Sefydliad y Fferm. Hefyd, byddai'r coleg pentref yn ganolbwynt naturiol, a gerllaw iddo byddai hyfforddiant mewn crefftau, megis toi â gwellt, cau a thorri ffosydd a'r defnydd o beiriannau amaethyddol, yn cael eu cyflawni, a byddai arddangosiadau yn cael eu rhoi mewn milfeddygaeth a ffarieraeth; a byddai hyfforddiant a chyngor technegol ar ddiwydiannau gwledig ar gael.

Byddai arddangosfeydd o gnydau yn cael eu trefnu ar ffermydd gerllaw'r coleg pentref. Yn Swydd Gaergrawnt, byddai'r holl arddangosfeydd a gynhelir gan Is Bwyllgor Addysg Amaethyddol y Pwyllgor Addysg felly'n cael eu canolbwyntio mewn canolfannau coleg pentref, a byddent yn cael eu cyd-drefnu gyda gwaith yr ysgol a gyda'r Cyrsiau Amaethyddol i oedolion a gynigir yn y coleg. Yna byddai'r coleg pentref yn ffurfio canolfan ar gyfer addysg amaethyddol a garddwriaethol.

(8) Dwy neu dair ystafell ar gyfer dosbarthiadau nos i oedolion yn bennaf, ac ar gyfer cyfarfodydd pentref sy'n ymwneud â Sefydliad y Merched, y Lleng Brydeinig, y Sgowtiaid a'r Geidiaid, a chyfarfodydd pwyllgor yn ymwneud â gweithgareddau'r pentref, megis y Sioe Garddwriaeth a Blodau, Gŵyl yr Haf a Chwaraeon Athletaidd, Pêl-droed y Pentref, Clybiau Criced a Thenis, ac ar gyfer gweithgareddau llywodraeth leol wledig sydd, yn unol â'r gyfraith, yn rhaid eu lletya mewn ysgol elfennol gyhoeddus os nad oes adeilad cyhoeddus arall ar gael, e.e. cyfarfodydd Cyngor Plwyf, ymchwiliadau'r llywodraeth leol, cyfarfodydd yn unol â'r Deddfau Rhandiroedd, Ymgeisiaeth ar gyfer cynghorau dosbarth neu blwyf, unrhyw gynghorau plwyf neu lywodraeth leol a benodir i weinyddu arian cyhoeddus a gwaddolion o fewn y plwyf (Deddf Llywodraeth Leol 1824, Adran 4).

(9) Ystafell baddonau cawod a gwisgo (y ddau mewn islawr) i'w defnyddio gan blant yr ysgol a Chlybiau Athletaidd y pentref. (yn anaml iawn mae athletwyr pentref yn mwynhau'r moethusrwydd o gael bath twym a rhwbiad yn dilyn gêm!)

(10) Meysydd hamdden y pentref, a ddarperir wrth ei ymyl gan y Cyngor Plwyf. Byddai hyn yn rhoi cae chwarae ychwanegol, heb fwy o gost, i holl blant yr ysgol, a byddai'n cymryd lle'r hen iard ysgol asffalt neu goncrid.

(11) Plot o dir i wasanaethu fel gardd yr ysgol, ac ar gyfer arddangosfeydd llai mewn garddwriaeth.

(12) Canolfan i gynnal gwaith yr Awdurdod Addysg sy'n ymwneud â Dewis Cyflogaeth ac Yswiriant Anghyflogaeth Pobl Ifanc.

(13) Tŷ'r Warden

(14) Llety ar gyfer gweithgareddau hamdden dan do. Does dim yn atal yr Awdurdod Addysg Lleol rhag rhentu ystafelloedd mewn adeilad sy'n eiddo i'r Cyngor Sir er dibenion gweithgareddau hamdden, megis clybiau a gêmau. Ac ni ddylid anghofio bod gan yr Awdurdod Addysg Lleol bwerau, yn unol ag Adran 86 o Ddeddf Addysg 1921, i ddarparu cyfleusterau i roi hyfforddiant cymdeithasol a chorfforol i blant, pobl ifanc ac oedolion. Ond mae'n bosib y byddai canolfan o'r fath lle lleolir y coleg pentref, yn rhesymol ac yn naturiol, yn galw am lety a osodir yn gwbl ar wahân ar gyfer gêmau dan do, yn enwedig biliards, a'i bod yn cael ei rheoli gan ymddiriedolwyr y pentref.

Mae'n bwysig ac yn hanfodol nad yw'r llety a ddefnyddir ar gyfer y fath weithgareddau hamdden dan do yn cael eu datgysylltu oddi wrth y coleg pentref, os yw'r sefydliad hwnnw am gyflawni ei swyddogaethau fel canolfan gymunedol yr ardal - yn addysgol ac yn gymdeithasol.

Cyflwynir y canlynol fel datrysiad cwbl foddhaol i'r broblem:

(a) Fel yn achos llawer o Ysgolion Canolog ac Uwchradd, gallai adeiladau'r ysgol neu unrhyw ran arall o'r coleg pentref gael eu defnyddio gyda'r nos ar gyfer clybiau bechgyn a merched, y Gymdeithas Ddadlau, y Clwb Gwyddbwyll, y Clwb Dramatig, y Clwb Natur, y Clwb Ffotograffeg a gêmau dan do.

(b) Gellid adeiladu'r bloc sy'n cynnwys ystafell biliards ac un neu fwy o ystafelloedd bach ar gyfer yr amrywiol gêmau dan do yn gyfagos i'r coleg. Ychydig lathau'n unig sydd angen i wahanu'r ddau adeilad; byddent yn ymwneud yn amlwg â bywyd beunyddiol a chynefin y coleg, er yn weinyddol byddent yn endidau ar wahân.

Byddai ystafelloedd hamdden o'r fath yn cael eu darparu allan o arian gwirfoddol; neu os ydynt yn ymwneud â choleg pentref, efallai y byddent yn gymwys i grant o unrhyw arian a neilltuir i'r diben hwn gan Gomisiynwyr Datblygu a'r Weinyddiaeth Amaeth. Byddent o dan reolaeth addas, h.y. ymddiriedolwyr sy'n perthyn i Gyngor Cymdeithasol y Pentref.

(c) *Ar y llaw arall, does dim yn atal yr ystafell hamdden rhag ffurfio rhan o'r coleg pentref; a byddai'n ddiddorol petai'r Comisiynwyr Datblygu a'r Weinyddiaeth Amaeth, yn cydweithredu â'r Bwrdd Addysg a'r Awdurdod Addysg Lleol (gan roi ystyriaeth i awdurdod y diwethaf yn unol ag Adran 86 o Ddeddf Addysg 1921, i gyflawni'r cynllun hwn er dibenion arbrofol petai coleg pentref yn cael ei sefydlu yn Swydd Gaergrawnt.*

Dylid nodi y gallai adeilad sy'n cyflawni'r holl anghenion a rifwyd ym Mharagraffau (1) – (14) gael ei ddarparu a'i gynnal a'i gadw gan yr Awdurdod Statudol.

Byddai'r holl ran honno sy'n ymwneud ag addysg elfennol ac uwch (yn cynnwys gardd yr ysgol a'r iard chwarae) yn gymwys i grant oddi wrth y Bwrdd Addysg. Byddai'r holl wasanaethau addysg elfennol ac uwch, a ddarperir o fewn ei waliau, yn wasanaeth statudol a ddarperir gan yr Awdurdod Lleol, gyda chymorth y Bwrdd Addysg.

Byddai'r gwasanaethau addysg amaethyddol yn gymwys i grantiau cynnal a chadw $66^{2/3}$ y cant y Weinyddiaeth Amaeth, sydd hefyd â'r awdurdod i gyfrannu grant o 75 y cant tuag at gost cyfalaf unrhyw ran o'r adeilad nad yw'n gymwys i grant oddi wrth y Bwrdd Addysg, a'i ddefnyddio'n bennaf ar

gyfer addysg amaethyddol i bersonau dros 16 oed.

Byddai cost cyfalaf a chynnal a chadw'r Llyfrgell a'r adran ystafell ddarllen o'r adeilad yn wasanaeth cyfradd dan gymorth yn unig, ac eithrio cyn belled ag y byddai'n bosib i'r Bwrdd Addysg a'r Weinyddiaeth Amaeth gyfrannu at y gost cyfalaf a chynnal a chadw i gyfrif am y gwaith a wnaed mewn cysylltiad ag addysg amaethyddol elfennol ac uwch. (Gweler paragraff (6) uchod).

Byddai rhan y neuadd yn gymwys i grant oddi wrth y Bwrdd Addysg, oherwydd byddai'n rhan annatod o'r ysgol, a byddai ar gael ar gyfer hyfforddiant cymdeithasol a chorfforol, yn unol ag Adran 86 o Ddeddf Addysg 1921.

Yn y cyswllt hwn, efallai y gellid galw am gymorth y Weinyddiaeth Amaeth a'r Comisiynwyr Datblygu, sy'n ystyried y mater o grantiau i neuaddau pentref.

Dylid nodi bod adeiladau ysgolion y cyngor ym mhob pentref, sy'n eiddo i'r Awdurdod Lleol, yn cael eu rhentu er dibenion cyffredinol a phan nad oes eu hangen ar gyfer dibenion addysgol; a byddai hyn yn wir am golegau pentref.

Gwasanaeth a ddarperir gan y Cyngor Plwyf yw'r maes chwarae; ynghyd ag ef mae'n bosib byddai unrhyw dir a ddarperir gan yr Awdurdod Addysg fel cae chwarae yn unol ag Adran 86 o Ddeddf Addysg 1921.

**xi.** Y Llywodraeth. Byddai rheolaeth dros y coleg pentref yn cael ei urddo i gorff o lywodraethwyr sy'n atebol i'r Awdurdod Lleol, yn cynnwys

(a) Rheolwyr yr ysgol elfennol. Gan y byddai ysgol yn gwasanaethu mwy nag un pentref, byddai'r fath gorff, trwy ddeddf, yn gorff cyfansawdd, yn cynnwys rheolwyr a benodwyd gan fân awdurdodau lleol yr ardal a wasanaethir.

(b) Aelodau a benodwyd gan y Cyngor Sir i gynrychioli buddiannau lleol, i arolygu addysg uwch, yn cynnwys addysg amaethyddol.

Mae'n bosib y byddai Cynghorau Plwyf (neu Gyfarfodydd Plwyf) fel mân awdurdodau lleol ar gyfer addysg elfennol, yn cael eu cysylltu'n briodol ag arolygu addysg uwch.

(c) Cynrychiolydd a benodir gan Senedd Prifysgol Caergrawnt.

(d) Cynrychiolwyr buddiannau eraill, e.e. y Cyngor Plwyf fel perchenogion y safle hamdden.

Byddai'r bwrdd llywodraethwyr yn cael ei benodi yn unol â chynllun cymeradwyedig, gan ddarparu ar gyfer cyflawni'r swyddogaethau statudol yn briodol. Wrth weithredu yn ei gyfanrwydd, byddai'r bwrdd llywodraethwyr yn gweithredu fel cynghorwyr ac ymgynghorwyr, ac eithrio pan ei fod efallai yn gweithredu yn ei gyfanrwydd, yn briodol, mewn modd gweithredol fel y mae, er enghraifft, gyda golwg ar bob ffurf o addysg uwch. Byddai camau gweithredol parthed gwasanaethau eraill penodol yn syrthio ar yr adran gyfansoddol, sy'n gyfrifol yn statudol fel y mae, er enghraifft, yn achos yr ysgol elfennol yn syrthio ar y rheolwyr. Byddai'r corff llywodraethol, cyn belled ag y bo'n cyflawni gwasanaethau lle mai'r Cyngor Sir yw'r Awdurdod Lleol, yn atebol i'r Cyngor Sir.

**xii.** *Pennaeth y Coleg Pentref.* Byddai pennaeth y coleg pentref, gan ddilyn ymlaen gyda chyd-drefniant y gwasanaethau addysgol, yn cyfuno nifer o swyddogaethau. O'r diwedd, byddai math newydd o arweinydd ac athro gyda statws uwch, ac o ansawdd uwch, yn bosib yng nghefn gwlad Lloegr. Felly, mae angen teitl priodol sy'n adlewyrchu'r statws newydd hwn a'i sgôp ehangach - yn enwedig os ydym am ddianc oddi wrth yr hen syniad o Ysgol Feistr y Pentref. Efallai y caiff ei alw'n Warden -

yna fe ddylem ni ddarllen am y ' *Warden of Sawston'* a'r *'Warden of Bourn'* a pham lai *Profost* neu *Feistr*, neu *Brifathro* mewn rhai achosion?

Byddai'n rhaid iddo fod yn ddyn a fagwyd yn y wlad ac a hyfforddwyd mewn Prifysgol; byddai Gradd mewn Gwyddoniaeth yn gymhwyster ychwanegol ac, uwchlaw popeth, byddai'n rhaid iddo fod yn ddyn sydd â chariad at a dealltwriaeth o fywyd y wlad, gyda'r awdurdod i arwain.

Fel Prifathro'r ysgol byddai hawl ganddo wrth gyflog priodol, yn unol â'r Raddfa Safonol a ddyrennir; yn ogystal, byddai'n derbyn symiau am ddyletswyddau arolygol ac eraill mewn cysylltiad ag addysg uwch.

Mae sgôp dyletswyddau'r Warden, cyfanswm ei dâl, a dyrannu cyfrannau ohono, e.e. i Addysg Elfennol (neu Addysg Uwchradd os yw'r Ysgol o fewn y Coleg wedi'i dylunio i gydymffurfio â'r Rheoliadau ar gyfer Ysgolion Uwchradd) yn gwestiynau sydd angen eu trin yn fanylach nag sy'n bosib yn y memorandwm bras hwn. Mae'r broblem yn un a fynegir orau, nid mewn crynodeb, ond pan fo cynigion penodol ar gyfer y coleg pentref yn cael eu ffurfioli ar gyfer y Bwrdd Addysg (a'r Weinyddiaeth Amaeth).

**xiii.** Pensaernïaeth. Mae'r posibilrwydd o ddod â'r amrywiol wasanaethau addysgol a chymdeithasol a fyddai'n trigo oddi fewn i'r coleg pentref, a'r posibilrwydd o gyflawni'r synthesis nodedig hwn, yn dibynnu, yn y lle cyntaf, ar ddarpariaeth yr adeilad.

Bydd yr adeilad a fydd yn ffurfio'r coleg pentref mor newydd i bensaernïaeth Seisnig, a'i arwyddocâd mor fawr, fel y dylid darparu'n ofalus iawn ar gyfer dylunio ac adeiladu'r colegau pentref cyntaf. Oherwydd rydym o fewn cyrraedd, os defnyddiwn ein dychymyg ac os oes gennym ddewrder gweinyddol, i roi nifer o adeiladau cyhoeddus gwych a theilwng i gefn gwlad Lloegr. Mae adeiladau ysgolion Lloegr wledig bron bob amser yn rhai gwael ac yn anaml iawn maent yn adeiladau prydferth - nid ydynt fyth yn ffurf o gelfyddyd, fel y gallent neu y dylent fod. Dyluniwyd y mwyafrif ohonynt i wasanaethu fel ysgol a neuadd y plwyf ar y cyd, ac ar adeg pan oedd safon y staff a'r llety, ansawdd y cwricwlwm a'r syniad o addysgu yn israddol iawn i'n rhai ni heddiw. Wrth i Ddeddf Addysg 1921 gael ei rhoi ar waith yn gynyddol, mae'r adeiladau'n sicr o gael eu newid. Yn ystod y degawdau nesaf, bydd nifer fawr o adeiladau addysgol newydd, yn costio symiau mawr o arian, yn cael eu codi yng Nghymru a Lloegr, a bydd y broses yn cael ei chyflymu os, fel yr ymddengys yn bosib, caiff system 'reolaeth ddeuol' yr Ysgolion Gwirfoddol a Chyngor eu diddymu oddi fewn i oes y Llywodraeth bresennol. Does dim rheswm pam na ddylai codi'r adeiladau newydd yma fod yn gyfle i ychwanegu at bensaernïaeth gyhoeddus y wlad; ac mae yna reswm ychwanegol na ddylid colli'r cyfle oherwydd nad yw'n debygol bydd yna fyth unrhyw fudiad adeiladol arall mor genedlaethol ac eang, sy'n effeithio mor llwyr ar fywydau'r gymuned gyfan, ag addysg gyhoeddus. Yn y ganrif sydd ohoni, bydd darparu adeiladau ar gyfer y system addysg gyhoeddus yn un o'r ffyrdd gorau y gall celfyddyd pensaernïaeth ddylanwadu ar y corff gwleidyddol. Os na fanteisir ar y cyfle, bydd hynny trwy hurtrwydd a diffyg gweledigaeth yn unig.

Yn aml, y gwahaniaeth rhwng pensaernïaeth dda a gwael yw'r gwahaniaeth rhwng dyluniad da a dyluniad gwael, yn hytrach na'r gwahaniaeth rhwng deunyddiau rhad a rhai drud. Gan dybio y bydd deunyddiau da ar gael ar gyfer y coleg pentref, y peth pwysig yw sicrhau fod ganddo ddyluniad arwyddocaol. Mae'n rhaid i ddyluniad o'r fath fod yn syml, ond gall fod yn brydferth. Gan ddefnyddio'n dychymyg, gadewch i ni ddweud wrth y pensaer: 'Mae addysg yn un o'n gwasanaethau cyhoeddus mwyaf, ac un o'r rhai mwyaf tryledol. Bob blwyddyn rydym yn gwario rhyw £80 miliwn arno. Mae'n rhaid i bob tref a phob pentref gael adeiladau

addysgol. Mae addysg yn cyffwrdd â phob dinesydd. Mae gennym gysyniad am sefydliad newydd ar gyfer y wlad, sefydliad a fydd yn cyffwrdd â phob rhan o fywyd trigolion yr ardal lle bydd yn cael ei lleoli. A fyddwch chi'n meddwl am ddyluniad ar gyfer y fath adeilad, coleg pentref? Adeilad a fydd yn mynegi'r ysbryd gwledig Seisnig y bwriedir iddo ei wasanaethu, elfen o'i diriondeb a'i wyleidd-dra, elfen o urddas hwsmonaeth barhaol ac oesol; adeilad a fydd yn rhoi canolbwynt cyfeirio a fydd yn deffro anwyldeb a theyrngarwch plant a phobl y wlad, ac yn cyflwyno arwyddocâd i'w ffordd o fyw? Os gellir gwneud hyn yn syml ac yn effeithiol, a bod yr anghenion amrywiol bydd y coleg pentref yn eu gwasanaethu'n cael eu sylweddoli fel endid a'u crynhoi mewn adeilad, gellir gosod safon a gellir cychwyn ar draddodiad mawr; mewn cyfosodiad o'r fath bydd pensaernïaeth yn dod o hyd i gyfrwng ffres a chyffredin o fynegiant. Os yw'r coleg pentref yn gysyniadaeth gywir ac ymarferol, bydd y sefydliad, gydag amrywiol addasiadau, yn lledu ar draws Lloegr wledig; a chydag amser bydd cyfres newydd o adeiladau cyhoeddus teilwng yn sefyll ochr yn ochr ag eglwysi plwyf y wlad.'

**xiv.** Ni fyddai'r coleg pentref, fel yr amlinellwyd, yn creu rhywbeth gormodol; byddai'n cymryd yr holl weithgareddau hanfodol amrywiol ond unigol ym mywyd y pentref - yr Ysgol, y Neuadd Bentref ac Ystafell Ddarllen, y Dosbarthiadau Nos, y Cyrsiau Addysg Amaethyddol, Sefydliad y Merched, y Lleng Brydeinig, y Sgowtiaid a'r Geidiaid, y safle hamdden, cangen o'r Llyfrgell Wledig Sirol, Clybiau Athletau a Hamdden – ac yn dod â nhw at ei gilydd mewn perthynas, i greu sefydliad newydd ar gyfer cefn gwlad Lloegr. Allan o'r elfennau gwahanol byddai'n creu cyfanwaith organig; byddai egni'r elfennau cyfansoddol yn cael ei gynnal, ac nid ei ddinistrio, ond byddai'r undod byddent yn ei greu yn beth newydd. Oherwydd, fel yn achos pob undod organig, mae'r cyfanwaith yn fwy na maint y rhannau unigol. Byddai'n gyfosodiad cymdeithasol gwirioneddol - byddai'n cymryd yr elfennau presennol a byw ac yn eu dwyn i mewn i berthynas newydd ac unigryw.

- Byddai'r coleg pentref yn newid wyneb cyfan y broblem o addysg wledig. Fel canolfan gymunedol y gymdogaeth, byddai'n darparu ar gyfer y person cyflawn, ac yn diddymu deuoliaeth addysg a bywyd cyffredin. Nid yn unig y byddai'n safle hyfforddi ar gyfer y grefft o fyw, ond yn lle ble mae bywyd yn cael ei fyw ac yn amgylchedd bywyd corfforaethol gwirioneddol. Ni fyddai'r ddadl ddiflas o addysg alwedigaethol ac analwedigaethol yn codi ynddo. Byddai'n arddangosiad gweledol cadarn o barhad a pharhauster addysg. Ni fydd yna 'adael yr ysgol' byth! - byddai'r plentyn yn dechrau'n dair oed ac yn gadael y coleg pan yn oedrannus iawn. Byddai ganddo'r fantais fawr o fod yn lleol, fel y byddai'n gwella ansawdd bywyd fel y caiff ei fyw'n feunyddiol - prif amcan addysg. Yn annhebyg i sefydliadau preswyl nad ydynt yn lleol (yr ysgolion bonedd, y prifysgolion, yr ychydig golegau gweithwyr preswyl, ac i gymryd enghraifft gyfandirol, yr Ysgolion Uwchradd Danaidd), ni fyddai'n cael ei ysgaru oddi wrth amgylchedd cyffredin y rhai hynny a fyddai'n ei fynychu'n feunyddiol, nac oddi wrth y sefydliad addysgol mwy hynny, sef y teulu. A oes sefydliad addysgol wedi bod erioed lle'r oedd un sefydliad yn darparu ar gyfer anghenion y teulu cyfan ac yn cyfnerthu ei fywyd - ei fywyd cymdeithasol, materol, deallusol ac economaidd? Mae'n sefydliadau addysgol cyfoes yn darparu ar gyfer unedau o'r teulu'n unig, neu'n gwahanu'r unigolyn oddi wrth y teulu o safbwynt amser a lle, fel y gallant ei addysgu ar wahân ac o dan amodau llai naturiol. Byddai'r coleg pentref yn gorwedd ar draws bywydau beunyddiol y gymuned byddai'n ei gwasanaethu; ac ynddo byddai'r amodau'n cael eu cydnabod, ac ni fyddai addysg yn ddihangfa o realiti, ond yn gyfoethogiad ac yn drawsffurfiad ohono. Oherwydd mae addysg yn ymrwymedig i'r farn gall y drefn ddelfrydol a'r drefn wirioneddol gael eu huno yn y pen draw.

- Yn y wlad hon rydym yn tystio, trwy ymestyn yr egwyddor o berchenogaeth, diflaniad yr hen ddosbarth perchen tir, ac ar yr un pryd mae dylanwad ac awdurdod y Sgweier a'r Offeiriad yn cael eu haddasu. Mae yna broblemau cymdeithasol a gwleidyddol, yn ogystal ag economaidd, yn deillio o'r newid hwn. Bydd y cyfrifoldebau dros arwain a chynnal a chadw'r traddodiadau Rhyddfrydol a hynaws yn ein pentrefi heb sgweieriaid (sy'n arferol ac nid yn eithriad yn Swydd Gaergrawnt) yn disgyn ar nifer mwy o ysgwyddau - byddant yn disgyn ar y gymuned gyfan. Y coleg pentref fydd canolfan a gwarcheidwad traddodiadau cyhoeddus hynaws y wlad, safle hyfforddi democratiaeth wledig yn cyflawni ei ddyletswyddau cymdeithasol a gwleidyddol. Heb sefydliad fel y coleg pentref ni fydd cymuned wledig, yn cynnwys gweithwyr amaethyddol yn bennaf, perchenogion a ffermwyr bychain yn gydradd yn y dasg o gynnal gwareiddiad gwledig teilwng. Y dewis arall fyddai cefn gwlad tebyg i rai gwledydd cyfandirol, llewyrchus efallai, ond cul a materol, heb wahaniaeth cynhenid a chyfaredd, a heb reddf ar gyfer y celfyddydau poblogaidd hyd yn oed.

- Byddai'r coleg pentref, trwy gydgysylltu cynrychiolwyr lleol yr awdurdod sirol gyda'r mân awdurdodau lleol, a'u huno yn y dasg ddiriaethol o weinyddu sefydliad lleol amlochrog a'r pwerau sy'n effeithio'n weledol ar fywyd o'u hamgylch yn feunyddiol, yn adfywio llywodraeth leol wledig. Byddai'r Cyngor Plwyf, tra'n dal i ymarfer ei bwerau ei hun, ond yn ymwneud ag ymarfer rhai mwy, yn cael ei waddoli gyda bywyd newydd. O'r diwedd, mae'n bosib y caiff llywodraeth dda a hunanlywodraeth eu cyfuno yng nghefn gwlad. Mae llywodraeth leol wledig yn dihoeni oherwydd nad oes yna sefydliad sy'n darparu canolfan gyfeirio a modd o fynegiant. Byddai'r coleg pentref yn diwallu'r angen hwnnw.

- Byddai'r coleg pentref yn rhoi cyfle i greu math newydd o arweinydd pentref ac athro ar gyfer cefn gwlad, gyda statws newydd a swyddogaeth eang, gan gofleidio lles dyn yn ei ystyr ehangaf – yn ysbrydol, yn gorfforol, yn gymdeithasol ac yn economaidd.

- Byddai'r coleg pentref yn rhoi cyfle i bensaernïaeth greadigol. Nid yw system addysg y Wladwriaeth wedi creu pensaernïaeth pendefig eto ar yr un raddfa â'r holl fudiadau mawr eraill o'r ysbryd cenedlaethol. Ac ni chafwyd unrhyw bensaernïaeth gyhoeddus yng nghefn gwlad Lloegr ers adeiladu'r Eglwysi Plwyf - hynny yw, ers y Canol Oesoedd. Ar wahân i'r rhai a etifeddwyd oddi wrth oes a fu, yr adeiladau cyhoeddus mwyaf a mwyaf trawiadol yng nghefn gwlad yw'r gwallgofdai a'r tlotai: gwallgofdai mawrion ac ysgolion gwael - golygfa a fyddai'n cynddeiriogi'r Nefoedd i gyd.

- Byddai'r coleg pentref yn cynnwys holl amodau sefydlogrwydd. Bydd yn cael ei ffurfio trwy asio dau sefydliad sy'n bodoli gyda'i gilydd, sydd eisoes wedi eu gwreiddio'n ddwfn yn y cynefinoedd ac yn annwyl i'r bobl. Bydd gan ei weithgareddau awdurdod statudol, a chefnogaeth ariannol statudol, ac felly gellir gwarantu ei sefydlogrwydd ariannol.

- Yn olaf, ni fyddai'r coleg pentref yn goroesi ei swyddogaeth, am y rheswm pennaf na fyddai'n glynu yn ddi-alw'n-ôl at unrhyw gredo deallusol na chymdeithasol, nag at unrhyw farn enwadol. Yn ddeallusol, mae'n bosib mai dyma un o'r mwyaf rhydd o blith ein Sefydliadau Seisnig.

## Y CYNLLUN A AWGRYMWYD AR GYFER SWYDD GAERGRAWNT

**xv.** Mae Swydd Caergrawnt eisoes wedi cael ei mapio mewn cyfres o tua 30-40 o ardaloedd a ddylai gael eu gwasanaethu gan Ysgolion Uwch; ac wedi archwilio'r ardaloedd, ymddengys bod yna ddeg o ganolfannau lle gellid trefnu colegau pentref

yn effeithiol. Mae'r canolfannau yma fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Sawston | Burwell |
| Bourn | Cottenham |
| Harston | Waterbeach |
| Linton | Weston Colville |
| Melbourn | Steeple Morden |

Dewiswyd y canolfannau yma dros dro oherwydd eu bod yn tra-arglwyddiaethu ar ardal fawr addas a homogenaidd.

Mae cyfle uniongyrchol i sefydlu dau goleg pentref ar sail arbrofol wedi dod i'r amlwg yn Sawston a Bourn. Mae pob un o'r ardaloedd sy'n amgylchynu'r ddau bentref yma'n cynnig nodweddion gwahanol, a byddai angen addasiadau eilaidd i'r cynllun cyffredinol o goleg pentref er mwyn gweddu â'r amodau lleol.

**Sawston.** Mae gan Sawston boblogaeth o 1530. Yn ogystal ag amaethyddiaeth mae yna ddiwydiant gwledig pwysig - twymo crwyn, a thrawsnewidir i mewn i ledr siami ar gyfer defnydd yn y cartref ac i gynhyrchu menig. Hefyd, ceir melin sy'n cyflogi tua 400, sy'n cynhyrchu mathau arbennig o bapurau memrwn ac o waith llaw, a defnyddir dŵr o'r Afon Granta ar eu cyfer. Y pentrefi cyfagos yw Whittlesford (poblogaidd o 980), Babraham (poblogaeth o 238), Pampisford (poblogaeth o 255) a Duxford (poblogaeth o 734). Pentrefi amaethyddol yw'r rhain yn bennaf, ac eithrio Whittlesford sy'n darparu gweithiwyr i felin bapur a gweithfeydd sy'n cynhyrchu offer fferm. Ysgol Gyngor yw'r ysgol yn Sawston gyda chyfartaledd o 227 yn mynychu, ac eisoes mae'n cyflawni diben Ysgol Uwch ar gyfer cyfran o'r ardal.

Mae'n meddiannu safle eang a allai, pe byddai angen, gael ei werthu a gallai'r derbyniadau fynd tuag at brynu safle mawr wrth ymyl y safle hamdden. Nid oes gan y pentref neuadd ar hyn o bryd, er bod peth arian wedi'i gasglu. Gallai coleg pentref yn Sawston ddarparu'n effeithiol ar gyfer anghenion cymuned wledig ardal o bum milltir sgwâr, a chan gynnwys pentrefi amaethyddol nodweddiadol fel Babraham, Pampisford a Duxford. Byddai sefydliad o'r fath yn darparu ar gyfer:

(1) Meithrinfa, ysgol i'r babanod a'r plant iau i Sawston yn unig.

(2) Ysgol wledig ar gyfer plant o 10 i 15 oed o Sawston, Whittlesford, Babraham, Pampisford a Duxford.

(3) Canolfan gymunedol i Sawston.

(4) Canolfan ar gyfer addysg amaethyddol ac addysg i oedolion ar gyfer ardaloedd Sawston, Whittlesford, Babraham, Pampisford a Duxford.

**Bourn**. Gorwedd Bourn (poblogaeth o 623) yng nghanol sir cwbl amaethyddol, yn cynnwys pentrefi Caxton (poblogaeth o 398), Longstowe (poblogaeth 249), Kingston (poblogaeth 173), Caldecote (poblogaeth 161) a Toft (poblogaeth 205).

Byddai coleg pentref yn Bourn yn dilyn yr un llinellau cyffredinol â'r coleg yn Sawston. Mae'r ardal yn brin iawn o gyfleusterau addysgol a chymdeithasol, a byddai'n gyfle i ddangos yr effaith lwyr y byddai sefydliad cyfansawdd fel coleg pentref yn ei gael ar fywyd addysgol, cymdeithasol ac economaidd poblogaeth sy'n ymwneud yn llwyr â gorchwylion amaethyddol. Yn Bourn byddai'n bosib gwneud y coleg pentref yn ganolfan addysg amaethyddol ac yn arddangosiad i ddynion a menywod ifanc ac oedolion yn yr ardal gyfagos.

## CASGLIAD: SWYDD GAERGRAWNT FEL ARDAL ENGHREIFFTIOL AR GYFER AIL-LUNIO GWLEDIG

**xv.** Erbyn hyn, disgrifiwyd y camau lle gallai dwy enghraifft arbrofol o goleg pentref

gael eu sefydlu yn Sawston a Bourn. Ond mae Sir wledig a chywasgedig Swydd Gaergrawnt yn cynnig ardal o Loegr lle gellid sefydlu system o golegau pentref. Yma, mae Swydd Gaergrawnt yn gwbl amaethyddol, gyda'i chymuned amaethyddol gynrychiolaidd; y Brifysgol yn y canol gydag Adran Ymchwil Amaethyddol a Garddwriaethol wych, a'r Sefydliad Botaneg Amaethyddol Cenedlaethol; ei chynllun i grwpio ysgolion gwledig a llunio system effeithlon o addysg wledig; system Sirol o addysg amaethyddol a garddwriaethol; cynllun addysg gwledig i oedolion mewn cyflwr da; polisi cynyddol o iechyd y cyhoeddus; ei Llyfrgell Wledig Sirol gyda changen ym mhob pentref; ei Chyngor Cymuned Gwledig yn gweithio gyda chymorth arbenigwyr o amrywiol Adrannau o'r Brifysgol; ei Chyngor Addysg Cerddoriaeth a Gŵyl Gerddorol.

Dychmygwch hi gyda'i bywyd addysgol, economaidd a chymdeithasol wedi'u haileni gan system o golegau pentref, yn cychwyn gyda Sawston a Bourn, ac yn cynyddu'n raddol i tua deg. Petai Ymddiriedolwyr Carnegie a'r Comisiynwyr Datblygu yn creu cynllun o'r fath, mae'n bosib y gallent gyflawni gwaith ailadeiladu o bwysigrwydd cenedlaethol na ellid mo'i well. Mae'r posibiliadau mor eang fel nad oes angen eu pwysleisio. Mae'n bosib y byddai'r Ymddiriedolwyr yn rhoi blaenswm addysgol, a fyddai'n un o'r mwyaf yn hanes addysg y wladwriaeth. Efallai bydd hi'n bosib o'r diwedd, wedi cenhedlaeth o drafod, y bydd cyfraniad enfawr yn cael ei wneud at y broblem wledig, a gellir dweud heb orliwio, y byddai'n rhagori ar unrhyw beth a wnaed yn unrhyw wlad, a fyddai'n fwy cynhwysfawr er enghraifft na'r Mudiad Ysgolion Uwchradd Danaidd.

Un wennol ni wna wanwyn; ac ni fyddai un coleg yn Sawston neu yn Bourn, er efallai byddai hyn yn dynodi trobwynt, yn arddangos ail-luniad gwledig amlwg a chadarn fel y byddai ardal o Loegr wledig fel Swydd Gaergrawnt, gyda'i holl fywyd yn cael ei ail-gyfeirio gan system o golegau pentref.

Mae'n bryd cymryd cam adeiladol mawr ymlaen o safbwynt y broblem wledig. Cydnabuwyd bod y gwaith o ailsefydlu bywyd a lles cefn gwlad yn bwysig iawn; mae ei angen er lles ein bywyd a'n hiechyd cenedlaethol. Ac oherwydd efallai na fyddwn yn aros yn wlad sy'n ddiwydiannol yn bennaf am byth, mae angen ymdrin â'r broblem o ail-lunio'r pentref mewn da bryd. Mae agweddau economaidd penodol o les gwledig y gellir eu datrys gan lywodraethau'n unig; ond mae'r holl agweddau eraill o les gwledig yn rhai y gellir ymdrin â hwy drwy addysg (yn ei ystyr ehangaf) a thrwy ailadeiladu bywyd cymdeithasol yng nghefn gwlad.

Os na ellir cyflawni'r gwaith yma yn unol ag un o'r cynlluniau a ddisgrifiwyd yn fras, ym mha ffordd mae'n bosib credu y caiff ei wneud byth?

## CYFEIRIADAU.

**1.** Bydd addysg o'r fath yn gwneud y bobl yn addas ar gyfer bywyd yn unrhyw gylch, boed hynny yn y wlad neu yn y dref; ac ni fydd yn atal y rhai hynny sy'n ei dderbyn rhag derbyn unrhyw fath o addysg uwch o fath academaidd; a does dim angen i'r hyfforddiant a roddir wneud y camgymeriad o fod yn 'alwedigaethol yn bennaf'.

**2.** Yr hyn a olygir gan gyfleusterau cymunedol yw adeiladau plwyfol er dibenion nad ydynt yn eglwysig, safleoedd hamdden ayb., ac nid gwasanaethau a ddarperir, e.e. gan y Cyngor Dosbarth Gwledig fel yr 'Awdurdod Iechydol'.

**3.** Mae pawb sydd â phrofiad o addysg wledig i oedolion yn gwybod mai un o'r anfanteision mwyaf yw'r diffyg adeiladau addas, ac nad yw pobl ifanc ac oedolion yn hoffi dychwelyd i'r ysgol elfennol gyda'i naws blentynnaidd, y desgiau a'r offer.

**4.** Teimlir angen, bron yn gyffredinol, yn y pentrefi am gartref teilwng i'r llyfrgell, gydag ystafell i ddarllen ynddi yn ystod nosweithiau hir y gaeaf, pan fo'r bwthyn bach yn llawn teulu ac nad yw'r golau'n ddigon da i fedru darllen.

## I. GWEITHIAU AC AREITHIAU HENRY MORRIS

Mae copïau o'r dogfennau a farciwyd gyda sêr wedi eu cyflwyno i ofal y Prif Swyddog Addysg, Neuadd y Sir, Caergrawnt.

*The Cambridgeshire Syllabus of Religious Teaching for Schools* Gwasg Prifysgol Caergrawnt 1923

**The Village College. Being a Memorandum on the provision of Educational and Social Facilities for the Contryside* Gwasg Prifysgol Caergrawnt 1924

* 'Institutionalism and freedom in Education' *New Ideals Quarterly* ii, Mawrth 1926. Dyma oedd un o fynegiannau ei athroniaeth a ddadleuwyd fwyaf yn ei gylch.

* 'A modern philosophy of education' Erthygl adolygu *The Nation and Athenaeum* 25 Awst 1929

* Rural Civilisation. Papur a ddarllenwyd i'r Gymdeithas Brydeinig yn Blackpool, 15 Medi 1936

* 'The Danish High School Myth' *Adult Education* Rhagfyr 1941

* Postwar Policy in Education. Papur ar gyfer Cymdeithas y Cyfarwyddwyr a'r Ysgrifenyddion Addysg, 31 Gorffennaf 1941

* The Post Primary Curriculum. Papur ar gyfer Cymdeithas y Cyfarwyddwyr a'r Ysgrifenyddion Addysg, 30 Mai 1942

The New Senior School in Britain. Sgwrs a ddarlledwyd ar Wasanaeth Gogledd America'r BBC, 14 Medi 1942

*'Adult education' yn *Education Handbook* Norwich, Jarrold 1943, Rhifyn E.W.Woodhead, tud 87-97. Mae'n cynnwys hanfod ei feddwl; mae'n cyfaddef yma ei fod yn dyfynnu'n doreithiog o'i erthygl yn y *New Ideals Quarterly,* ac o ddwy ddarlith a roddodd yn Athrofa Caergrawnt yn 1925, nad ydynt wedi goroesi

The Village College. Sgwrs a ddarlledwyd ar Wasanaeth Dwyrain Pell y BBC, Chwefror 1944

Community Centres and the School in Rural and Urban Areas. Papur a ddarllenwyd i Sefydliad Addysg Oedolion Prydain, 22 Ebrill 1944

Community Centres. Papur a ddarllenwyd i Gymdeithas y Cyfarwyddwyr a'r Ysgrifenyddion Addysg, Ionawr 1946

Buildings for Further Education. Papur a ddarllenwyd i'r RIBA, 26 Ebrill 1945

Education and Planning. Papur a ddarllenwyd yng nghynhadledd y Gymdeithas Cynllunio Gwlad a Thref, Ebrill 1946

* Liberty and the individual. Sgwrs a ddarlledwyd ar Wasanaeth Cartref y BBC, 13 Tachwedd 1946

* Report on the West African Institute of Industries, Arts and Social Science, Swyddfa'r Trefedigaethau, Tachwedd 1947

Amusement and Education. Papur i Grŵp yr Holl Eneidiau, Hydref 1953

Education, Community Centres, and other cultural institutions (1948). Papur a anfonwyd i Reolwyr Corfforaethau Datblygu pob Tref Newydd

* The idea of a village college' sgwrs a ddarlledwyd ar Wasanaeth Cartref y BBC, argraffwyd yn *The Listener,* 10 Chwefror 1955

* The Contemporary Artist and the Community, Mehefin 1955

* Architecture, Humanism and the Local Community. Papur a ddarllenwyd i'r RIBA ac a gyhoeddwyd yn yr *RIBA Journal,* 15 Mai 1956

Style Maketh Man. Papur a ddarllenwyd i'r Cyngor Addysg Gweledol, 1957

**II. GWEITHIAU ERAILL Y CYFEIRIR ATYNT YN Y TESTUN**

***CYMDEITHAS Y CYFARWYDDWYR A'R YSGRIFENYDDION ADDYSG, *Post War Policy,* Llyfrfa Ei Mawrhydi 1942 (Y Llyfr Oren)

* BIMROSE, DOROTHY *The Story of Digwell: A Matter Done.* Rhagair gan Henry Moore. Ar gael oddi wrth y Maynard Gallery, Welwyn Garden City

CYNGOR YMGYNGHOROL CANOLOG DROS ADDYSG *Children and their Primary Schools* (Adroddiad Plowden) Llyfrfa Ei Mawrhydi 1967

PWYLLGOR YMGYNGHOROL AR ADDYSG *The Education of the Adolescent* (Adroddiad Hadow) Llyfrfa Ei Mawrhydi 1926

Y BWRDD ADDYSG *Handbook for Teachers* Llyfrfa Ei Mawrhydi 1937

Y WEINYDDIAETH ADDYSG *Community Centres* 1946

Y BWRDD ADDYSG *Handbook of Suggestions for Teachers* Llyfrfa Ei Mawrhydi 1947

ELLIS, HAVELOCK *My Confessional* Bodley Head 1934

FARNELL, D.J 'Henry Morris: an architect of education' traethawd ymchwil na chafodd ei gyhoeddi. Yr Athrofa, Caergrawnt. Ffynhonnell werthfawr iawn

FISHER, NORMAN 'Henry Morris' *Education* 29 Hydref, 1954

FISHER, NORMAN Henry Morris. Pioneer of education in the countryside. Darlith Goffa Arthur Mellows 1965. Ar gael oddi wrth Ymddiriedolaeth Arthur Mellows, Glint, Trebedr

GIEDION, S. *Walter Gropius: work and teamwork* Gwasg Architectural 1954

HOWE, JACK *New College of Further Education Architectual Brief*

PEVSNER, N. *Cambridgeshire: The Buildings of England No. 10* Penguin 1954

POSTER, C. *The School and the Community* Macmillan 1971

POSTER, C. 'Village colleges today' *New Society* 9 Hydref, 1969

RASHDALL, HASTINGS S. *Universities of Europe in the Middle Ages* Gwasg Prifysgol Rhydychen 1936

READ, HERBERT *Annals of Innocense and Experience* Faber 1940

READ, HERBERT *Education Through Art,* Faber 1958

ROBERTSON, BRIAN Cyflwyniad i *British Sculpture and Painting* o gasgliad Awdurdod Addysg Swydd Gaerlŷr, Galeri Whitechapel, Llundain 1967

SCOTT, GEOFFREY *Architecture of Humanism* Constable 1914

Cysodwyd gan James Preston

Cyhoeddwyd gan y Biwro Ieuenctid Cenedlaethol,

17-23 Stryd Albion, Caerlŷr LE1 6GD